| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 22 Ionawr 2025 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cyng. Gwyneth Ellis (Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol) / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes) |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau) |
| **Awdur yr adroddiad** | Robyn Lovelock (Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni) |
| **Teitl y Sesiwn Friffio** | Asesiad Perfformiad Panel |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad terfynol Asesiad Perfformiad Panel Cyngor Sir Ddinbych, datganiadau ymateb drafft a Chynllun Gweithredu drafft yn ymateb i argymhellion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1 Darparu adroddiad Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1), datganiadau ymateb drafft (Adran 4.6 a 4.7) a’r Cynllun Gweithredu (Atodiad 2) i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy’n nodi ymatebion i’r argymhellion yn yr adroddiad Asesiad Perfformiad Panel er mwyn i’r pwyllgor gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sef:

- Cael copi o’r adroddiad (Atodiad 1).
- Adolygu’r datganiadau statudol y mae gofyn i’r Cyngor eu gwneud i ymateb i’r Adroddiad (Adran 4.6 a 4.7) a gwneud argymhellion am newidiadau i’r datganiadau fel y mae’n barnu sy’n briodol.

.

- Adolygu’r camau gweithredu y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cymryd (Atodiad 2) a gwneud argymhellion am newidiadau fel y mae’n barnu sy’n briodol.

## 3. Beth yw’r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn nodi a darparu adborth, am yr Adroddiad Asesiad Perfformiad Panel (Atodiad 1).

3.2 Bod y Pwyllgor yn adolygu’r datganiad statudol y mae gofyn i’r Cyngor ei wneud i ymateb i’r Adroddiad a gwneud argymhellion am newidiadau i’r datganiadau fel y mae’n barnu sy’n briodol (Adran 4.6 a 4.7).

3.3 Bod y Pwyllgor yn adolygu’r camau gweithredu y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cymryd, y ‘Cynllun Gweithredu’, a gwneud argymhellion am newidiadau fel y mae’n barnu sy’n briodol (Atodiad 2).

## 4. Manylion yr adroddiad

### Ynglŷn â’r Asesiad Perfformiad Panel

4.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae’n rhaid i brif Gynghorau wneud trefniadau i sicrhau bod Panel a benodwyd gan y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae’r Cyngor yn bodloni’r gofynion o ran perfformiad o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredinol olynol (mis Mai 2022 a’r un a ragwelir ym mis Mai 2027), h.y. unwaith yn ystod tymor pob Cyngor Sir.

4.2 Yn ogystal â chyflawni gofyniad statudol, gall Asesiad Perfformiad Panel effeithiol nodi siwrnai gwella’r Cyngor, gan adeiladu ar yr hunanasesiad blynyddol, i’w gefnogi i edrych at y dyfodol o safbwynt gwahanol. Mae’r Asesiad Perfformiad Panel wedi rhoi cyfle i brofi meddylfryd, gyda chymheiriaid arbenigol diduedd, sy’n darparu safbwyntiau gwahanol drwy herio annibynnol, gwrthrychol wrth wneud eu hargymhellion.

4.3 Cynhaliodd CLlLC yr Asesiad Perfformiad Panel ar ran CSDd rhwng 9 a 12 Medi 2024 – yr Asesiad Perfformiad Panel cyntaf yng Nghymru.

4.4 Cafodd yr adroddiad drafft ei adolygu o ran cywirdeb gan y Cabinet a'r Uwch Dîm Arwain a derbyniodd y Panel bob awgrym i'w golygu. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd (Atodiad 1). Mae'r adroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan ac roedd yn nodi 9 argymhelliad ar gyfer gwelliant ac 8 maes cryfder ac arloesedd.

4.5 Gan ymateb i'r adroddiad Asesiad Perfformiad Panel, mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i ni gynnwys:

- I ba raddau ydym ni'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad.
- I ba raddau mae'r Cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
- Unrhyw gamau mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad (Cynllun Gweithredu).

**Datganiadau statudol drafft**

4.6 Mae'r datganiad drafft ar gyfer "i ba raddau ydym ni'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad" fel a ganlyn:

*"Mae'r Cyngor yn derbyn yr adroddiad a'i gasgliadau. Mae'n nodi bod yr asesiad yn broses ddefnyddiol ac mae'n gwerthfawrogi pa mor feddylgar a thrylwyr mae'r tîm Asesu wedi bod. Ar gyfer Asesiadau'r dyfodol, byddem yn croesawu mwy o gynnwys yn yr adroddiad terfynol am y dystiolaeth a welwyd sydd wedi arwain at bob argymhelliad. Sylw cyffredinol, sy'n adlewyrchu ar draws nifer o'n hymatebion yn y Cynllun Gweithredu, yw yr hoffem fod wedi gweld mwy o bwyslais yn y broses a'r adroddiad ar sut ydym ni'n cynyddu lles a chadernid y gymuned a'r Cyngor ar gyfer heriau a ragwelir, yn unol â nodau a ffyrdd o weithio Lles Cenedlaethau'r Dyfodol."*

4.7 Mae'r datganiad drafft ar gyfer "i ba raddau mae'r Cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad" fel a ganlyn:

*"Mae'r Cyngor yn derbyn pob argymhelliad a wnaed yn adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel ac mae wedi rhoi Cynllun Gweithredu ar waith sy'n nodi sut y bydd yn bwrw ymlaen â phob argymhelliad. Dylid nodi bod yr Asesiad hwn wedi'i wneud ar adeg benodol a bod*

*cynnydd eisoes wedi digwydd yn gyflym mewn rhai meysydd, fel blaenoriaethu'r gwaith trawsnewid."*

**Cynllun gweithredu**

4.8 Mae'r camau mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i ymateb i argymhelliad yr Adroddiad wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu drafft (Atodiad 2).

4.9 Caiff camau gweithredu eu hychwanegu at System Rheoli Perfformiad y Cyngor a chaiff diweddariadau eu rhoi bob chwarter. Caiff cynnydd ar gamau gweithredu ei rannu yn ein hunanasesiad blynyddol hefyd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd yr Asesiad Perfformiad Panel yn profi effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogaethau'r Cyngor. Bydd y gwaith yn arbennig o fuddiol yng nghyd-destun thema'r Cynllun Corfforaethol, sef bod yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cafodd yr Asesiad Perfformiad Panel ei ddarparu a'i ariannu gan CLILC.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd y ddogfen gwmpasu, gan gynnwys y meysydd canolbwynt a geisir, ei datblygu rhwng mis Mai a mis Mehefin 2024 gyda mewnbwn gan yr Uwch Dîm Arwain, y Cabinet, y Pwyllgor Craffu Perfformiad (6 Mehefin 2024 – Eitem 9), y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (12 Mehefin 2024 – Eitem 7) a'r Cyngor Sir (9 Gorffennaf 2024 – Eitem 6), ynghyd â hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad ar gyfer 2023 i 2024.

8.2 Er mwyn adolygu'r adroddiad Asesiad Perfformiad Panel drafft o ran cywirdeb, cafodd y fersiwn ddrafft ei hadolygu gan yr Uwch Dîm Arwain (17 Hydref 2024) ac yn sesiwn Briffio'r Cabinet (4 Tachwedd 2024). Cafodd canfyddiadau'r adroddiad eu trafod yng Nghynhadledd Arweinyddiaeth CSDd (3 Rhagfyr 2024), y Tîm Gweithredol Corfforaethol (16 Rhagfyr) a sesiwn Briffio'r Cabinet (6 Ionawr) hefyd er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer y datganiadau statudol drafft a'r cynllun gweithredu.

8.3 Cafodd yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu eu trafod yn anffurfiol yng Ngweithdy'r Cyngor (14 Ionawr) ac yn y Cyngor Staff (15 Ionawr).

8.4 Ar ôl heddiw, caiff yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, eu trafod yn y Cabinet (18 Chwefror) a'r Cyngor (20 Chwefror).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen datganiad gyda'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau arwyddocaol yn gysylltiedig â gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Rhan 6, Perfformiad a Threfniadau Llywodraethu Prif Gynghorau a Chydbwyllgorau Corfforedig (Adrannau 92, 93, 94 a 108).